# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## ATODLEN O GYDNABYDDIAETH ARIANNOL AELODAU 2023-2024

Mae'r Atodlen hon yn cael ei gwneud o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) sy'n berthnasol i daliadau a wneir i Aelodau Etholedig ac Aelodau Cyfetholedig awdurdodau lleol.

**1. Cyflog Sylfaenol**

1.1 Bydd Cyflog Sylfaenol yn cael ei dalu i bob Aelod Etholedig o'r Awdurdod fel y nodir yn **Atodlen 1**.

1.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfradd y Cyflog Sylfaenol yn cael ei hadolygu bob blwyddyn fel y penderfynir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

1.3 Lle mae cyfnod swydd Aelod yn dechrau neu'n gorffen ac eithrio ar ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl i gael y Cyflog Sylfaenol ar statws pro-rata.

1.4 Nid oes mwy nag un Cyflog Sylfaenol yn daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

**2. Cyflogau Uwch a Chyflogau Dinesig**

2.1 Bydd Aelodau mewn swyddi penodol yn cael Cyflog Uwch neu Gyflog Dinesig fel y nodir yn **Atodlen 1**.

2.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfraddau Cyflogau Uwch a Chyflogau Dinesig yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel y pennir gan Adroddiad Blynyddol neu Atodol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

2.3 Dim ond un Cyflog Uwch neu Gyflog Dinesig sy'n daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

2.4 Ni all Aelod o'r Awdurdod gael Cyflog Uwch a Chyflog Dinesig.

2.5 Mae pob Cyflog Uwch a Dinesig yn cynnwys y Cyflog Sylfaenol.

2.6 Ni chaiff Cyflog Uwch ei dalu i fwy na nifer yr Aelodau a bennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei Adroddiad Blynyddol (i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mae hyn yn cyfateb i 18 aelod), ac ni all fod yn fwy na hanner cant y cant o gyfanswm aelodaeth yr Awdurdod, ac eithrio i gynnwys swydd Cyflog Uwch dros dro i gyflenwi ar gyfer absenoldeb teuluol y deiliad swydd a benodwyd.

2.7 **Ni all** Aelod o'r Awdurdod dderbyn Cyflog Uwch Band 1 neu Fand 2 gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) neu Awdurdod Tân ac Achub (ATA) y mae wedi cael ei enwebu iddynt.

2.8 Lle mae tymor Aelod sy'n derbyn Cyflog Uwch neu Gyflog Dinesig yn dechrau neu'n gorffen tu allan i ddechrau neu ddiwedd y flwyddyn arferol, bydd ei hawl i Gyflog yn pro-rata.

**3. Penderfyniad i Beidio â Derbyn y Lwfans**

3.1 Gall Aelod, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i Swyddog Priodol yr Awdurdod, ddewis yn bersonol i beidio â derbyn unrhyw ran o'i hawl i unrhyw gyflog, lwfans neu ffi sy'n daladwy o dan y Cynllun hwn o'r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad. Gellir tynnu hysbysiad o'r fath yn ôl ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad ysgrifenedig tebyg, ond nid yw'n bosibl adfer hawl i unrhyw gyflog, lwfans neu ffi na dderbyniwyd yn flaenorol.

## 4. Atal Aelod

4.1 Pan fydd Aelod o'r Awdurdod yn cael ei atal, yn llwyr neu'n rhannol, o'i gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu Reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, mae rhan y Cyflog Sylfaenol sy'n daladwy mewn perthynas â'r cyfnod o atal yn cael ei ddal yn ôl gan yr Awdurdod (Adran 155 (1) o'r Mesur).

4.2 Pan fydd Aelod sy'n derbyn Cyflog Uwch yn cael ei atal, yn llwyr neu'n rhannol, rhag bod yn Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu Reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i'r Awdurdod beidio â thalu Cyflog Uwch i'r Aelod drwy gydol cyfnod yr ataliad (Adran 155 (1) o'r Mesur). Os yw'r atal rhannol yn ymwneud ag elfen cyfrifoldeb penodol y taliad yn unig, gall yr aelod gadw'r Cyflog Sylfaenol.

## 5. Ad-dalu cyflogau, lwfansau neu ffioedd

5.1 Pan fydd taliad unrhyw gyflog, lwfans neu ffi wedi cael ei wneud i Aelod o'r Awdurdod neu Aelod Cyfetholedig mewn perthynas ag unrhyw gyfnod pan fydd yr Aelod dan sylw:

(a) wedi'i atal neu ei atal dros dro o ddyletswyddau neu gyfrifoldebau Aelod / Aelod Cyfetholedig yn unol â Rhan 3 o'r Ddeddf 2000 neu â Rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno;
(b) wedi rhoi'r gorau i fod yn Aelod o'r Awdurdod neu'n Aelod Cyfetholedig; neu
(c) neu mewn unrhyw ffordd arall heb yr hawl i dderbyn cyflog, lwfans neu ffi mewn cysylltiad â'r cyfnod hwnnw,

bydd yr Awdurdod yn ei wneud yn ofynnol bod y cyfryw ran o'r cyflog, lwfans neu ffi sy'n ymwneud ag unrhyw gyfnod o'r fath yn cael ei ad-dalu.

## 6. Taliadau

6.1 Bydd taliadau'r holl gyflogau, lwfansau neu ffioedd yn cael eu gwneud gan y Cyfarwyddwr Strategol (Cyllid ac Adnoddau) gan gredyd banc debyd mewn rhandaliadau o un rhan o ddeuddeg o hawl blynyddol yr Aelod ar y pymthegfed diwrnod o bob mis (neu'r diwrnod gwaith cyntaf agosaf).

6.2 Pan fydd y taliad wedi arwain at Aelod yn derbyn mwy nag sydd ganddo o hawl i gyflogau, lwfansau neu ffioedd, bydd yr Awdurdod yn gofyn bod y rhan honno sy'n ordaliad yn cael ei had-dalu.

6.3 Mae'r holl daliadau yn ddarostyngedig i'r dreth briodol a didyniadau Yswiriant Gwladol.

## 7. Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol

7.1 Bydd Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol yn cael ei roi i Aelod neu Aelod Cyfetholedig, sydd â chyfrifoldeb gofalu am blant neu oedolion dibynnol, ar yr amod bod yr Aelod yn mynd i gostau wrth ddarparu gofal o'r fath wrth wneud dyletswyddau 'cymeradwy' y cyngor.

7.2 Mae Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol yn gymwys mewn perthynas â phlant sy'n 16 oed neu ieuengach a phobl eraill y mae'r Aelod neu'r Aelod Cyfetholedig yn gallu dangos bod angen gofal arnynt. Os oes gan Aelod neu Aelod Cyfetholedig fwy nag un dibynnydd, caiff yr Aelod hawlio mwy nag un lwfans, ar yr amod y gall yr Aelod ddangos bod angen gwneud trefniadau ar wahân ar gyfer gofal. Beirniadir pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun.

7.3 Gall Aelodau cymwys wneud cais am Gyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol ar gyfer costau gwirioneddol gyda derbynneb, fel y nodir yn **Atodlen 1**. Dylai'r holl hawliadau am Lwfans Gofal gael eu gwneud ar y ffurflen yn rhoi manylion amseroedd, dyddiadau a rhesymau dros hawlio. Mae'n ofynnol i roi derbynebau ar gyfer y trefniant gofal anffurfiol a ffurfiol.

**8. Absenoldeb Teuluol**

8.1 Mae hawl gan Aelodau o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 i gyfnod o absenoldeb teuluol, lle os ydynt yn bodloni'r amodau a ragnodir, bod ganddynt hawl i fod yn absennol o gyfarfodydd yr Awdurdod.

8.2 Wrth gymryd absenoldeb teuluol, mae gan Aelodau'r hawl i gadw cyflog sylfaenol beth bynnag yw eu cofnod presenoldeb yn union cyn cychwyn yr absenoldeb teuluol.

8.3 Petai deiliad Cyflog Uwch yn gymwys i gael absenoldeb teuluol byddant yn gallu parhau i dderbyn eu Cyflog Uwch drwy gydol yr absenoldeb.

8.4 Os bydd yr Awdurdod yn cytuno ei bod yn angenrheidiol penodi eilydd i ddirprwyo dros absenoldeb teuluol y deiliad Cyflog Uwch, bydd yr Aelod sy'n dirprwyo yn gymwys i dderbyn Cyflog Uwch hefyd os yw'r awdurdod yn penderfynu felly, drwy gydol yr absenoldeb.

8.5 Os bydd y taliad i'r eilydd yn achosi'r awdurdod i fynd dros yr uchafswm ar gyfer Cyflogau Uwch, bydd ychwanegiad at yr uchafswm yn cael ei ganiatáu am gyfnod penodiad yr eilydd.

**9. Taliadau i Aelodau Cyfetholedig**

9.1 Rhaid i ffi ddyddiol Aelodau Cyfetholedig (gyda darpariaeth ar gyfer taliadau hanner diwrnod) gael ei thalu i Aelodau Cyfetholedig, ar yr amod eu bod yn Aelodau Cyfetholedig statudol gyda hawliau pleidleisio.

9.2 Bydd taliadau Aelodau Cyfetholedig yn cael cyrraedd uchafswm o **10** diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer pob pwyllgor y gellir cyfethol unigolyn iddynt.

9.3 Bydd taliadau yn cymryd i ystyriaeth amser teithio yn ôl ac ymlaen i leoliad y cyfarfod, amser rhesymol ar gyfer paratoi ymlaen llaw; mae taliadau ar gyfer hyd y cyfarfod yn unig (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).

9.4 Caiff y Swyddog Monitro ei ddynodi fel y 'swyddog priodol' a fe wnaiff benderfynu amser paratoi, amser teithio a hyd y cyfarfod, caiff ffi ei dalu ar sail y penderfyniad hwn.

9.5 Gall y Swyddog Monitro benderfynu o flaen llaw a yw cyfarfod yn cael ei raglennu ar gyfer diwrnod llawn a bydd y ffi yn cael ei thalu ar sail y penderfyniad hwn, hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn dod i ben cyn bod pedair awr wedi mynd heibio.

9.6 Mae cyfarfod hanner diwrnod yn cael ei ddiffinio fel hyd at 4 awr.

9.7 Mae cyfarfod diwrnod llawn yn cael ei ddiffinio fel dros 4 awr.

9.8 Mae'r ffi am ddiwrnod a hanner diwrnod ar gyfer Cadeiryddion y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, yn cael ei nodi yn **Atodlen 1**.

9.9 Mae'r ffi am ddiwrnod a hanner diwrnod ar gyfer Aelodau Cyfetholedig statudol â hawliau pleidleisio, fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, yn cael ei nodi yn **Atodlen 1**.

**10. Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth**

10.1 **Egwyddorion Cyffredinol**

10.2 Gall Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig hawlio costau teithio wrth deithio ar fusnes yr Awdurdod ar gyfer 'dyletswyddau cymeradwy' fel y nodir yn **Atodlen 2.** Lle bo aelodau'n teithio ar fusnes yr Awdurdod, disgwylir iddynt deithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost-effeithiol. Wrth asesu effeithiolrwydd cost, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i amser teithio. Gellir cwtogi ar gais costau gan Aelod nad yw'n teithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost-effeithiol â swm priodol.

10.3 Lle bo'n bosibl dylai Aelodau rannu cludiant.

10.4 Dylai'r pellter a hawlir am filltiroedd fod am y daith fyrraf resymol ar y ffordd o'r man ymadael at y man lle mae'r ddyletswydd yn cael ei pherfformio, ac yn yr un modd o'r man dyletswydd i'r man dychwelyd.

10.5 Mae cyfraddau Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth Aelodau wedi'u nodi yn **Atodlen 3** ac maent yn destun adolygiad blynyddol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

10.6 Pan fydd Aelod yn cael ei atal yn llwyr neu'n rhannol o'i gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu Reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i unrhyw lwfansau teithio a chynhaliaeth sy'n daladwy mewn perthynas â'r cyfnod y cânt eu hatal, neu eu hatal yn rhannol, gael eu dal yn ôl gan yr Awdurdod.

**11. Teithio mewn Cerbyd Preifat**

11.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu y dylai'r cyfraddau teithio uchaf sy'n daladwy fod y cyfraddau a nodir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer y defnydd o geir preifat, beiciau modur a beiciau pedal, yn ogystal ag unrhyw deithwyr ychwanegol.

11.2 Mae'r cyfraddau milltiredd ar gyfer cerbydau preifat fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi'u nodi yn **Atodlen 3.**

11.3 Pan fydd Aelod yn defnyddio ei gerbyd preifat ar gyfer dibenion dyletswydd cymeradwy, rhaid i'r cerbyd gael ei yswirio at ddefnydd busnes. Rhaid darparu prawf o yswiriant priodol i'r Awdurdod ar gais.

**12. Teithio ar Gludiant Cyhoeddus**

12.1 **Taith Trên / Bws**

Teithio ar drên - Oni bai bod caniatâd arbennig wedi'i roi, bydd pob tocyn a brynir yn docyn safonol. Bydd cost y tocynnau safonol yn cael eu had-dalu lle mae Aelod yn talu'n uniongyrchol. Gall Gwasanaethau Aelodau drefnu i archebu taith ar drên yn uniongyrchol. Yn y ddau achos, a lle bo'n briodol, anogir defnyddio Cardiau Rheilffyrdd i gael disgowntiau. Ni anogir y defnydd o warantau rheilffyrdd gan nad ydyw bob amser yn bosibl cael y tocynnau mwyaf cost effeithiol.

Bws / Rheilffyrdd tanddaearol – bydd costau'r tocynnau'n cael eu had-dalu.

12.2 **Costau Tacsi**

Bydd costau tacsi ond yn cael eu had-dalu lle mae eu defnydd wedi'u caniatáu ar gyfer achosion brys, lle nad oes cludiant cyhoeddus ar gael yn rhesymol, neu fod gan Aelod angen personol penodol. Bydd ad-daliad ar sail derbynneb yn unig.

12.3 **Costau Hedfan**

Caniateir teithio mewn awyren os mai dyma'r dull mwyaf cost effeithiol o deithio. Mae angen awdurdod y Pennaeth Gwasanaeth a bydd tocynnau'n cael eu prynu gan Wasanaethau Aelodau fel arfer.

12.4 **Teithio Dramor**

Bydd teithio dramor ar fusnes yr Awdurdod yn cael ei awdurdodi gan y Pennaeth Gwasanaeth yn unig. Bydd Gwasanaethau Aelodau fel arfer yn trefnu teithio a llety.

12.5 **Costau Teithio Eraill**

Bydd hawl gan Aelodau i gael ad-daliad ffioedd tollau, ffioedd parcio, garejis dros nos a chostau eraill sy'n gysylltiedig â theithio angenrheidiol. Mae angen dangos derbynebau lle bo'n briodol.

**13. Llety Dros Nos**

13.1 Bydd arhosiad dros nos yn cael ei ganiatáu lle bo busnes yr Awdurdod yn ymestyn i ddau ddiwrnod neu fwy yn unig, neu os yw'r lleoliad ar bellter o'r fath y byddai teithio'n gynnar yn y bore neu'n hwyr y nos yn afresymol. Rhaid i bob arhosiad dros nos gael caniatâd ymlaen llaw gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol arall.

13.2 Dylai Aelodau drefnu bod archebion gwesty priodol yn cael eu gwneud ar eu rhan a lle bo'n bosibl, bydd y llety dros nos yn cael ei dalu ymlaen llaw neu'n cael ei anfonebu.

13.3 Bydd Aelod sy'n archebu llety dros nos yn uniongyrchol yn cael ei ganiatáu mewn achos o argyfwng yn unig, neu lle bydd yr Aelod yn gallu cael cyfradd archebu ratach. Bydd ad-daliadau ond yn cael eu gwneud ar ôl dangos derbynneb ar lefel a ystyrir yn rhesymol ac nid yn fwy na'r cyfraddau a nodir yn **Atodlen 3**.

**14 Lwfans Cynhaliaeth**

14.1 Mae'r gyfradd cynhaliaeth dydd i gwrdd â chostau prydau bwyd a lluniaeth mewn cysylltiad â dyletswyddau cymeradwy (gan gynnwys brecwast pan na ddarperir fel rhan o lety dros nos) yn cael ei nodi yn **Atodlen 3**. Mae'r gyfradd ddyddiol uchaf yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd sy'n berthnasol, ar yr amod bod cais o'r fath yn cael ei gefnogi gan dderbynneb(au).

14. 2 Nid oes darpariaeth ar gyfer hawliadau cynhaliaeth o fewn y Fwrdeistref Sirol.

**15. Ceisiadau a Thaliadau**

15.1 Rhaid gwneud cais am lwfansau teithio a chynhaliaeth ar y ffurflen a ddarperir ar gyfer y diben hwnnw, a bydd yn cynnwys datganiad na wnaed cais arall i unrhyw Awdurdod, sefydliad neu gorff arall mewn perthynas â'r mater y mae'r cais yn gysylltiedig ag ef.

15.2 Rhaid gwneud unrhyw hawliad am lwfansau teithio neu gynhaliaeth o fewn tri mis o ddiwedd mis y calendr y mae'r hawliad am lwfansau'n codi, a rhaid cael derbynebau perthnasol gydag ef. Dylai hyn gynnwys derbynneb TAW dilys â'r costau tanwydd llawn fel y gellir adennill yr elfen TAW o unrhyw dreuliau.

15.3 Bydd lwfansau'n cael eu talu gan y Cyfarwyddwr Strategol (Cyllid ac Effeithlonrwydd) drwy gredyd banc debyd.

**16. Pensiynau**

16.1 Bydd yr Awdurdod yn galluogi ei Aelodau sy'n gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**17. Cydymffurfiaeth**

17.1 Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â gofynion y Panel mewn perthynas â monitro a chyhoeddi taliadau a wnaed i aelodau ac aelodau cyfetholedig fel y nodir yn **Atodlen 4**.

**Atgoffir yr Aelodau bod ceisiadau treuliau yn destun archwilio mewnol ac allanol.**

## ATODLEN 1

## ATODLEN O GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2023-2024

| AELODAU SYDD Â'R HAWL I GYFLOG SYLFAENOL YN UNIG | SWM BLYNYDDOL Y CYFLOG SYLFAENOL |
|---|---|
| 1. Y Cynghorydd Cathy Augustine<br>2. Y Cynghorydd Carol Beard<br>3. Y Cynghorydd Antony Bertola<br>4. Y Cynghorydd Frank Bradfield<br>5. Y Cynghorydd Chris Brockley<br>6. Y Cynghorydd David Carr<br>7. Y Cynghorydd Samantha Cotton<br>8. Y Cynghorydd Neil Coverley<br>9. Y Cynghorydd Simon Croft<br>10. Y Cynghorydd Sharon Doleman<br>11. Y Cynghorydd Keith Eeles<br>12. Y Cynghorydd Gwennol Ellis<br>13. Y Cynghorydd Louise Emery<br>14. Y Cynghorydd Sian Grady<br>15. Y Cynghorydd Ros Griffiths-Williams<br>16. Y Cynghorydd Mandy Hawkins<br>17. Y Cynghorydd Chris Hughes<br>18. Y Cynghorydd Alan Hunter<br>19. Y Cynghorydd Dave Jones<br>20. Y Cynghorydd Gail Jones<br>21. Y Cynghorydd Gareth Jones<br>22. Y Cynghorydd Abdul Khan<br>23. Y Cynghorydd Trystan Lewis<br>24. Y Cynghorydd Paul Luckock<br>25. Y Cynghorydd Anne McCaffrey<br>26. Y Cynghorydd Bernice McLoughlin<br>27. Y Cynghorydd Thomas Montgomery<br>28. Y Cynghorydd Jo Nuttall<br>29. Y Cynghorydd Nia Owen<br>30. Y Cynghorydd Angie O'Grady<br>31. Y Cynghorydd Stephen Price<br>32. Y Cynghorydd Kay Redhead<br>33. Y Cynghorydd Dilwyn Roberts<br>34. Y Cynghorydd Michael Smith<br>35. Y Cynghorydd Trevor Stott<br>36. Y Cynghorydd Jacob Williams<br>37. Y Cynghorydd Andrew Wood | £17,600 |

| | HAWL I GYFLOGAU UWCH<br>(yn cynnwys Cyflog Sylfaenol) | | |
|---|---|---|---|
| | **RÔL** | **AELOD** | **SWM BLYNYDDOL Y CYFLOG UWCH** |
| 1. | Arweinydd y Cyngor | Y Cynghorydd Charlie McCoubrey | £59,400 |
| 2. | Aelod Cabinet Tai a Rheoleiddio a Dirprwy Arweinydd | Y Cynghorydd Emily Owen | £41,580 |
| 3. | Aelod Cabinet Addysg | Y Cynghorydd Julie Fallon | £35,640 |
| 4. | Aelod Cabinet Cyllid, Refeniw a Budd-daliadau | Y Cynghorydd Mike Priestley | £35,640 |
| 5. | Aelod Cabinet Plant, Teuluoedd a Diogelu | Y Cynghorydd Liz Roberts | £35,640 |
| 6. | Aelod Cabinet Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig | Y Cynghorydd Penny Andow | £35,640 |
| 7. | Aelod Cabinet yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau – Isadeiledd | Y Cynghorydd Goronwy Edwards | £35,640 |
| 8. | Aelod Cabinet yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau - Y Gymdogaeth a'r Amgylchedd | Y Cynghorydd Geoff Stewart | £35,640 |
| 9. | Aelod Cabinet Diwylliant a Hamdden | Y Cynghorydd Aaron Wynne | £35,640 |
| 10. | Aelod Cabinet Democratiaeth a Llywodraethu | Y Cynghorydd Chris Cater | £35,640 |
| 11. | Arweinydd yr Wrthblaid a Chadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau | Y Cynghorydd Cheryl Carlisle | £26,400 |
| 12. | Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd | Y Cynghorydd Sue Shotter | £26,400 |
| 13. | Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau | Y Cynghorydd Hannah Fleet | £26,400 |
| 14. | Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle | Y Cynghorydd Nigel Smith | £26,400 |
| 15. | Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | Y Cynghorydd Harry Saville | £26,400 |
| 16. | Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio | Y Cynghorydd Austin Roberts | £26,400 |
| 17. | Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a Statudol | Y Cynghorydd John Roberts | £26,400 |
| Gellir talu uchafswm o 18 cyflog uwch ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ac ni aethpwyd dros yr uchafswm. | | | |

| HAWL I GYFLOGAU DINESIG<br>(gan gynnwys Cyflog Sylfaenol) | SWM BLYNYDDOL Y CYFLOG DINESIG | |
|---|---|---|
| **RÔL** | | |
| Arweinydd Dinesig (Cadeirydd) | Y Cynghorydd Ifor Lloyd | £26,400 |

| HAWL FEL CYNORTHWYYDD I AELOD (GWEITHREDOL) O'R CABINET |
|---|
| Fe fydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn penderfynu fesul achos ar y cyflog priodol, os o gwbl, ar gyfer cynorthwywyr i'r Weithrediaeth. |

| HAWL FEL AELODAU CYFETHOLEDIG STATUDOL | | SWM LWFANS AELODAU CYFETHOLEDIG |
|---|---|---|
| **RÔL** | **AELOD** | |
| Cadeirydd y Pwyllgor Safonau | Clive Wolfendale | £268 (4 awr a throsodd)<br>£134 (hyd at 4 awr) |
| Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | Ian Whyte | £268 (4 awr a throsodd)<br>£134 (hyd at 4 awr) |
| Aelodau Arferol o Bwyllgorau Safonau, Craffu Addysg, Craffu Trosedd ac Anrhefn, ac Archwilio | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br>• Philip Brooks<br>• David Stephens<br>• Nigel Rudd<br><br>Pwyllgor Safonau<br>• Hazel Jones<br>• Anne Mellor<br>• Clive Wolfendale<br>• Brenda Bignold<br>• Gill Murgatroyd<br><br>Craffu<br>• Roz Harrison<br>• Collette Owen<br>• Sedd wag | £210 (4 awr a throsodd)<br>£105 (hyd at 4 awr) |
| Aelodau Cyfetholedig Statudol – aelodau arferol o'r Pwyllgor Safonau sydd hefyd yn cadeirio Pwyllgorau Safonau mewn Cynghorau Cymuned | Amherthnasol | £238 (4 awr a throsodd)<br>£119 (hyd at 4 awr) |

| AELODAU SY'N GYMWYS I DDERBYN LWFANS GOFAL | |
|---|---|
| Pob Aelod | • Costau gofal ffurfiol (wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru) i'w talu yn unol â thystiolaeth.<br>• Costau gofal anffurfiol (heb gofrestru) i'w talu hyd at gyfradd uchaf sy'n gyfwerth â Chyflog Byw Gwirioneddol y DU ar yr adeg pan aethpwyd i'r costau. |

**ATODLEN 2**

**Dyletswyddau cymeradwy:** -

- presenoldeb mewn cyfarfod o'r Awdurdod neu unrhyw bwyllgor o'r Awdurdod neu unrhyw gorff y mae'r Awdurdod yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddo neu unrhyw bwyllgor o gorff o'r fath;

- presenoldeb mewn cyfarfod o unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r Awdurdod yn aelod;
- presenoldeb mewn unrhyw gyfarfod arall y mae'r cynhaliad wedi'i awdurdodi gan yr Awdurdod neu gan bwyllgor o'r Awdurdod neu gan gydbwyllgor o'r Awdurdod ac un neu fwy o Awdurdodau eraill;
- dyletswydd a ymgymerir at ddiben neu mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r Cabinet;
- dyletswydd a ymgymerir yn unol â rheol sefydlog sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod neu Aelodau fod yn bresennol pan agorir dogfennau tendro;
- dyletswydd a ymgymerir mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaeth o'r Awdurdod sy'n rhoi'r grym neu'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod archwilio neu awdurdodi archwilio adeiladau;
- presenoldeb mewn unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwywyd gan yr Awdurdod neu ei Gabinet;
- unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwywyd gan yr Awdurdod neu unrhyw ddyletswydd arall o ddosbarth a gymeradwywyd ar gyfer y diben, neu sy'n gysylltiedig â chyflawni swyddogaethau'r Awdurdod neu unrhyw un o'i Bwyllgorau.

Sylwer: Mae'r Awdurdod wedi penderfynu'n benodol i beidio â chymeradwyo dyletswydd a wnaed mewn cysylltiad â chyfrifoldebau etholaeth neu ward fel Busnes Swyddogol sy'n codi o gyflawni swyddogaethau awdurdod lleol.

## ATODLEN 3

**Cyfraddau Milltiredd**

| | |
|---|---|
| Cerbydau modur o bob maint<br>Hyd at 10,000 milltir<br>Dros 10,000 milltir | 45 ceiniog y filltir<br>25 ceiniog y filltir |
| Beiciau modur preifat<br>Beiciau pedal | 24 ceiniog y filltir<br>20 ceiniog y filltir |
| Tâl ychwanegol am deithwyr eraill | 05 ceiniog y filltir |

**Lwfans Cynhaliaeth**

Y gyfradd cynhaliaeth dydd yw uchafswm o £28 ac mae'n cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd, os yw'n berthnasol, ac os caiff ei gefnogi gan dderbynebau.

Ni chaniateir ad-dalu diodydd alcoholig.

**Llety Dros Nos**

Uchafswm y lwfansau ar gyfer arhosiad dros nos yw £200 ar gyfer Llundain a £95 ar gyfer mannau eraill. Mae uchafswm o £30 ar gael ar gyfer arhosiad dros nos gyda ffrindiau neu berthnasau wrth fod ar ddyletswydd gymeradwy.

**ATODLEN 4**

**Cydymffurfiaeth**

- Bydd yr Awdurdod yn trefnu i gyhoeddi'r cyfanswm a dalwyd ganddo i bob Aelod ac Aelod Cyfetholedig ar wefan y Cyngor o ran cyflogau, lwfansau, ffioedd ac ad-daliadau ddim hwyrach na 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud ag ef. Er budd tryloywder bydd hyn yn cynnwys cydnabyddiaeth o bob penodiad gwasanaethau cyhoeddus a gynhelir gan aelodau etholedig.

- Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi datganiad o gyfrifoldeb sylfaenol Cynghorydd a disgrifiadau rôl ar wefan y Cyngor ar gyfer Deiliaid Swyddi Cyflog Uwch, sy'n nodi'n glir y dyletswyddau disgwyliedig.

- Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi atodlen flynyddol o Gydnabyddiaeth Ariannol Aelodau ar wefan y Cyngor, dim hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r atodlen yn cyfeirio ati.

- Bydd yr Awdurdod yn anfon copi o'r atodlen i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ddim hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r atodlen yn cyfeirio ati.

- Bydd yr Awdurdod yn cadw cofnodion o bresenoldeb Aelodau / Aelodau Cyfetholedig mewn cyfarfodydd o'r Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau a dyletswyddau cymeradwy eraill y mae Aelod / Aelod Cyfetholedig yn cyflwyno cais am ad-daliad amdanynt.

- Bydd yr Awdurdod yn trefnu cyhoeddi'r adroddiadau blynyddol a baratoir gan yr Aelodau ar wefan y Cyngor.

- Pan fydd yr Awdurdod yn cytuno i dalu dirprwy am gyfnod absenoldeb teuluol, bydd yn rhoi gwybod i Banel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol Cymru o fewn 14 diwrnod o'r penderfyniad gyda'r manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd y dirprwyad.